**Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc**

**CYP(3)-17-08(p.1) : 27 Tachwedd 2008**

**Adolygiad Blynyddol Comisiynydd Plant Cymru 2007/08.**

**Papur tystiolaeth sy'n rhoi amlinelliad o sut y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cefnogi gwaith Comisiynydd Plant Cymru**

Cyflwyniad

Cafodd y Comisiynydd ei benodi gan y Prif Weinidog i ddechrau gwaith ar 1 Mawrth 2008. Mae gan y Prif Weinidog yr hawl hefyd i'w ddiswyddo o dan amodau penodol (os mai dyna ddymuniad y Comisiynydd, os ystyrir na all gyflawni'r gwaith, neu os yw wedi bod yn euog o gamymddwyn).

Mae'r Comisiynydd Plant yn hyrwyddo hawliau plant yn annibynnol, ac yn cyflwyno sylwadau i Lywodraeth y Cynulliad ac eraill fel y bo angen, ar safbwyntiau plant a phobl ifanc, ac ar y prif faterion sy'n cael effaith arnynt. Mae'r rheol hon yn arbennig o bwysig pan na fo Plant a Phobl Ifanc o bosibl yn mwynhau eu hawliau'n llawn, neu pan fo eu hawliau'n cael eu diystyru. Mae'n herio Gweinidogion ac asiantaethau eraill yng Nghymru, i gymryd safbwyntiau, problemau ac anghenion plant o ddifrif. Mae'r materion sy'n cael eu codi ganddo yn cynnwys amrywiol feysydd polisi a gwasanaeth, ac yn cynnwys materion sy'n rhan o bortffolio Gweinidogion.

Mae'n rhaid i'r Comisiynydd gyflwyno adroddiad blynyddol i'r Prif Weinidog ar ei weithgareddau erbyn 1 Hydref pob blwyddyn. Bydd y Prif Weinidog yn rhoi ymateb ffurfiol cyhoeddus, y mae'r Cabinet yn cytuno arno, a chaiff ei drafod yn y Cyfarfod Llawn cyn ei gyhoeddi.

Yr hyn sy'n digwydd yw bod Adroddiad Blynyddol y Comisiynydd yn cael ei gyflwyno i Lywodraeth y Cynulliad, a'i drafod yn y cyfarfod llawn, fel arfer ym mis Tachwedd pob blwyddyn. Mae hyn yn rhoi cyfle i'r Cynulliad Cenedlaethol ystyried yr adroddiad yn fanwl, a chyflwyno barn am y cynnwys i'r Gweinidogion.

Mae Ymateb Ffurfiol Llywodraeth y Cynulliad, sy'n cael ei baratoi gan swyddogion, yn cael ei drafod gan y Cabinet oddeutu cyfnod y Nadolig, lle y bydd y Gweinidogion yn ei gymeradwyo ac yn cynnig cyllideb rhagamcanol ar gyfer y flwyddyn ariannol ddilynol. Caiff yr ymateb ei gyhoeddi, ac yna bydd y Gweinidog arweiniol, y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau, yn gwneud datganiad ym mis Mawrth, y gall Aelodau'r Cynulliad gynnig sylwadau pellach arno.

Os yw'r Comisiynydd yn penderfynu cynnal archwiliad o achos penodol sy'n gysylltiedig â Llywodraeth Cynulliad Cymru, mae dyletswydd statudol arno i hysbysu Llywodraeth Cynulliad Cymru o'i gylch gorchwyl. Fodd bynnag, mae hefyd wedi cytuno i hysbysu Llywodraeth Cynulliad Cymru os yw'n penderfynu, neu'n os yw'n fwriad ganddo, ddefnyddio unrhyw un o'i swyddogaethau adolygu sy'n gysylltiedig â'r Cynulliad. Bydd yn gwneud hyn trwy ysgrifennu at y Gweinidog pwnc perthnasol.

Trosolwg o'r materion a godwyd gan Adroddiad Blynyddol Plant ar gyfer 2007/08.

Yn ystod ei fisoedd cyntaf yn y swydd, mae'r Comisiynydd wedi cyfarfod â phlant ledled Cymru, a nifer o oedolion penodedig, sydd wedi bod yn cydweithio â'r Comisiynydd i ddiogelu a hybu hawliau a lles plant.

Mae'r Comisiynydd wedi clywed sut:

y mae'n rhaid inni fynd i'r afael â thlodi plant a gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i gyfleoedd bywyd plant sy'n agored i niwed.

y mae'n rhaid inni fuddsoddi mewn lles emosiynol plant, a sut y mae'n rhaid inni gynorthwyo teuluoedd.

y mae angen inni sicrhau ei bod yn bosibl i blant allu cymryd rhan yn eu cymunedau, a'u bod yn cael eu cynorthwyo yn eu cymunedau.

y mae'n rhaid i blant gael cyfle i chwarae a dysgu mewn amrywiol sefyllfaoedd, a sut y mae'n rhaid inni roi cyfleoedd i blant dyfu a ffynnu mewn gwlad sy'n eu parchu ac yn eu gwerthfawrogi.

Cafodd yr holl faterion uchod, a mwy, eu nodi yn adroddiad blynyddol y Comisiynydd ar gyfer 2007/08. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn casglu'r ymatebion ynghyd, i'w cyflwyno i Bwyllgor y Cabinet maes o law.

Ar gais y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, mae'r Comisiynydd wedi cyflwyno papur (CYP (3)-16-08) ar gyfer y cyfarfod ar 13 Tachwedd 2008. Mae papur y Comisiynydd yn cynnwys rhai o brif lwyddiannau swydd Comisiynydd Plant Cymru ers penodi Peter Clarke, y Comisiynydd cyntaf, ers i'r sefydliad ddechrau gweithredu'n llawn.

Oherwydd natur annibynnol y swydd, mae'r Comisiynydd Plant yn cyfarfod â'r Gweinidog PADGOS o bryd i'w gilydd, ac yn rhoi amlinelliad o faterion ar gyfer ei agenda, yn unol â natur annibynnol ei swydd. Gall y Gweinidog awgrymu materion i'w trafod hefyd.

Bydd swyddogion hefyd yn cyfarfod â'r Comisiynydd Plant yn chwarterol, i drafod unrhyw faterion y mae'r Comisiynydd neu'r swyddogion yn dymuno eu codi i sicrhau eu bod yn cyfathrebu'n rheolaidd ac yn effeithiol. Gan bod y Comisiynydd Plant yn gweithredu fel ombwdsmon annibynnol, nid yw Llywodraeth Cynulliad Cymru yn monitro ei waith yn ffurfiol.

**Jane Hutt AC,Tachwedd 2008**

**Y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau**